



CYFRES GWEMINAR GOFAL LLINIAROL

Na cheisier dadebru cardio-anadlol (DNACPR) a Chynllunio Gofal Ymlaen Llaw /Dyfodol yng Nghymru

Dydd Mercher 19 Mai 2021

19:00 – 20:00

Cadeirir gan Dr Nimish Shah, Arweinydd DPP Meddygon Teulu ar gyfer De Cymru.

Trosolwg

Diweddarwyd dogfen bolisi Na cheisier dadebru cardio-anadlol www.wales.nhs.uk/dnacpr yn 2020, ac mae yna hefyd lu o ddogfennau Cynllunio Gofal Ymlaen Llaw newydd www.wales.nhs.uk/afcp gan gynnwys ffurflen Penderfyniad Ymlaen Llaw Cymru Gyfan ar Wrthod Triniaeth a chanllawiau i gleifion. Yn y weminar hon, bydd yr Athro Taubert yn trafod newidiadau allweddol, a heriau parhaus ffurflenni papur.

- Ehangu ar y cysyniad o 'Farwolaeth Naturiol Ddisgwyliedig a Dderbynnir' (NAAD) fel sbardun i ystyried trafodaeth a phenderfyniad Na cheisier dadebru cardio-anadlol
- Dylid cynnig trafodaethau Na cheisier dadebru cardio-anadlol / CPR i gleifion ac ni ddylent gael eu gorfodi, yn enwedig os teimlir y gallai siarad am farwolaeth a marw fod yn niweidiol
- Dylid ailadrodd nad yw dulliau cyffredinol o ymdrin â Na cheisier dadebru cardio-anadlol byth yn dderbyniol a rhaid i bob penderfyniad gael ei bersonoli'n fawr i'r unigolyn yr effeithir arno
- Mae penderfyniadau ynghylch CPR yn brif benderfyniad gofal iechyd a dylid rhoi parch a blaenoriaeth briodol iddynt
- Eglurhad ynghylch pwy all gynnal trafodaethau o'r fath a phwy all lofnodi adran 5 o'r ffurflen Na cheisier dadebru cardio-anadlol, gan gynnwys nyrsys, meddygon iau ac o 2020 ymlaen, Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd fel parafeddygon
- Dylai pawb sy'n ymwneud â phenderfyniadau a ffurflenni Na cheisier dadebru cardio-anadlol fod wedi darllen dogfen bolisi Cymru Gyfan
- Yn hytrach na rhoi tasg i gleifion a'u hanwyliaid gyda phenderfyniad a fyddent eisiau CPR ai peidio, cyfleu barn y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol (a'r tîm) pam mae angen penderfyniad Na cheisier dadebru cardio-anadlol, a pha mor isel y gall cyfraddau llwyddiant CPR fod.
- Nodyn i'ch atgoffa o ffurflenni eraill sy'n bodoli eisoes sy'n ymwneud â Chynllunio ymlaen llaw a Chynllunio Gofal yn y Dyfodol, gan gynnwys Penderfyniadau Ymlaen Llaw i wrthod Triniaeth, sy'n cael eu llenwi gan gleifion i nodi eu gwrthodiadau a lleoliad fersiynau Cymru Gyfan o'r ffurflenni a'r arweiniad
- Ffurflenni trawsffiniol gan gynnwys ReSPECT o Loegr, a ffurflenni Na cheisier dadebru cardio-anadlol o'r Alban a'u cymhwysiad mewn lleoliadau clinigol yng Nghymru
- Beth fydd yn digwydd os bydd yr unigolyn yn symud o un lle i'r llall (ee i'r cartref, o'r ysbyty, hosbis, cartref gofal, neu o un ward ysbyty i'r llall).
- Cais ar y ffurflen Na cheisier dadebru cardio-anadlol ei hun i ysgrifennu yn yr adrannau testun rhydd i ddisgrifio'n fyr y sgwrs a gynhaliwyd
- TalkCPR.wales ac adnoddau hyfforddi eraill yng Nghymru

Ymunwch â ni yn y gweminar er mwyn cael gwybod mwy.

Siaradwr: Yr Athro Mark Taubert FRCP FRCGP, Cyfarwyddwr Clinigol ac Ymgynghorydd Meddygaeth Liniarol Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre; Yr Athro Anrhydeddus Ysgol Feddygaeth Prifysgol Caerdydd; Cadeirydd Strategol Cynllunio Ymlaen Llaw a'r Dyfodol ar gyfer GIG Cymru.

Ar gyfer: Meddygon teulu. Mae croeso mawr i weithwyr meddygol proffesiynol perthynol eraill.

Y Newid: Cyflwyniad ac yna'r cyfle i gyfeirio cwestiynau at y siaradwr arbenigol yn ystod y gweminar.

I gofrestru ar gyfer y gweminar hwn, ewch i [Virtual Learning Events | CPD for General Practitioners \(heiw.wales\)](http://Virtual Learning Events | CPD for General Practitioners (heiw.wales))